

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
Answers to Questions not reached in Plenary
13/12/2006

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

Cynnwys
Contents

- 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid
Questions to the Finance Minister

- 3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad
Questions to the Minister for Environment, Planning and Countryside

Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid
Questions to the Finance Minister

Y Gyllideb Gyffredinol (Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau)
The Overall Budget (Education, Lifelong Learning and Skills)

Q11 Nick Bourne: What representations has the Minister received regarding the overall budget allocation of funding to the education, lifelong learning and skills portfolio? OAQ0717(FIN)

C11 Nick Bourne: Pa sylwadau y mae'r Gweinidog wedi'u derbyn ynglŷn â'r gyllideb gyffredinol a ddyrannwyd i'r portffolio addysg, dysgu gydol oes a sgiliau? OAQ0717(FIN)

The Finance Minister (Sue Essex): During the course of the budget planning round and preparing the final budget, I have discussed the budget with the Minister for Education, Lifelong Learning and Skills and had representations from the Education and Lifelong Learning Committee. I have also discussed the relevant issues with the leaders of the opposition parties.

Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex): Yn ystod cylch cynllunio'r gyllideb a pharatoi'r gyllideb derfynol, yr wyf wedi trafod y gyllideb gyda'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ac wedi cael sylwadau gan y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes. Yr wyf hefyd wedi trafod y materion perthnasol gydag arweinyddion y gwrthbleidiau.

Y Gyllideb Gyffredinol (Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus)
The Overall Budget (Local Government and Public Services)

Q12 David Lloyd: Will the Minister make a statement on the overall budget allocation of funding to the local government and public services portfolio. OAQ0732(FIN)

C12 David Lloyd: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gyllideb gyffredinol a ddyrannwyd i'r portffolio llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus? OAQ0732(FIN)

Sue Essex: The budget allocation for the local government and public services portfolio is £3.8 billion in 2006-07. This is an increase of 7.6 per cent over the 2005-06

Sue Essex: Yn 2006-07, £3.8 biliwn oedd y gyllideb a ddyrannwyd ar gyfer portffolio llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus, sy'n gynydd o 7.6 y cant ar gyllideb 2005-

budget. This increase includes transfers in respect of social care and education.

06. Mae'r cynnydd hwn yn cynnwys trosglwyddiadau o ran gofal cymdeithasol ac addysg.

Ffurio'r Gyllideb Formulating the Budget

Q13 William Graham: What considerations did the Minister take into account when formulating the Assembly budget for incorporating Assembly sponsored public bodies within the Welsh Assembly Government? OAQ0712(FIN)

C13 William Graham: Beth fu'r Gweinidog yn ei ystyried wrth ffurfio cyllideb y Cynulliad ar gyfer cynnwys cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru? OAQ0712(FIN)

Sue Essex: I took into account our priorities set out in 'Wales: A Better Country', the views of the subject committees, and the need for ministerial colleagues to establish a set of effective and well-targeted budgets that will deliver their programme activities and the Government's policy objectives.

Sue Essex: Ystyriais ein blaenoriaethau a nodwyd yn 'Cymru: Gwlad Well', barn y pwyllgorau pwnc, a'r angen i gydweithwyr sy'n Weinidogion sefydlu set o gyllidebau effeithiol sydd wedi'u targedu'n dda a fydd yn cyflawni eu gweithgareddau rhaglen ac amcanion polisi'r Llywodraeth.

Y Portffolio Menter, Arloesi a Rhwydweithiau The Enterprise, Innovation and Networks Portfolio

C14 Alun Ffred Jones: Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau parthed y dyraniad arian i'w bortffolio? OAQ0743(FIN)

Q14 Alun Ffred Jones: What recent discussions has the Minister had with the Minister for Enterprise, Innovation and Networks regarding the budget allocation to his portfolio? OAQ0743(FIN)

Sue Essex: During the course of the budget planning round and preparing the final budget, I have discussed the budget with the Minister for Enterprise, Innovation and Networks and had representations from the Enterprise, Innovation and Networks Committee. I have also discussed the relevant issues with the leaders of the opposition parties.

Sue Essex: Yn ystod cylch cynllunio'r gyllideb ac wrth baratoi'r gyllideb derfynol, yr wyf wedi trafod y gyllideb â'r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau ac wedi cael sylwadau gan y Pwyllgor Menter, Arloesi a Rhwydweithiau. Yr wyf hefyd wedi trafod y materion perthnasol gydag arweinwyr y gwrthbleidiau.

Y Strategaeth Adleoli The Relocation Strategy

Q15 Lisa Francis: Will the Minister make a statement on value for money in the Welsh Assembly Government's relocation strategy? OAQ0730(FIN)

C15 Lisa Francis: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am werth am arian yn strategaeth adleoli Llywodraeth Cynulliad Cymru? OAQ0730(FIN)

Sue Essex: The location strategy delivers the Welsh Assembly Government's policy of bringing services closer to its citizens and will ensure that we have more local contact with the communities that we serve. It will redistribute wealth and job opportunities

Sue Essex: Mae'r strategaeth leoli yn cyflawni polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru o ddod â gwasanaethau yn agosach at y bobl, a bydd yn sicrhau bod gennym fwy o gysylltiad lleol gyda'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu. Bydd yn ail-ddosbarthu

across Wales and stimulate regeneration in key Objective 1 areas.

cyfoeth a chyfleoedd swyddi drwy Gymru ac yn ysgogi adfywio yn ardaloedd Amcan 1.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad Questions to the Minister for Environment, Planning and Countryside

Adolygiad Stern The Stern Review

Q13 Jocelyn Davies: What discussions has the Minister held with the UK Ministers regarding the Stern review on the economics of climate change? OAQ1006 (EPC)

C13 Jocelyn Davies: Pa drafodaethau mae'r Gweinidog wedi eu cynnal gyda Gweinidogion y DU ynghylch adolygiad Stern ar economeg newid yn yr hinsawdd? OAQ1006(EPC)

The Minister for Environment, Planning and Countryside (Carwyn Jones): I discussed the Stern review and wider climate change issues with David Milliband, the Secretary of State for Environment, Food and Rural Affairs, when I met him on 10 November.

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones): Trafodais adolygiad Stern a materion ehangach ynglŷn â newid hinsawdd gyda David Milliband, yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, pan gyfarfu'r ddau ohonom ar 10 Tachwedd.

Cerbydau Peiriannol Mechanically Propelled Vehicles

Q14 Christine Chapman: Will the Minister make a statement on the impact on the environment of the use of mechanically propelled vehicles in Wales? OAQ0982 (EPC) *Transferred for written answer by the Minister for Enterprise, Innovation and Networks.*

C14 Christine Chapman: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith y defnydd o gerbydau peiriannol ar yr amgylchedd yng Nghymru? OAQ0982(EPC) *Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig gan y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau.*

The Minister for Enterprise, Innovation and Networks (Andrew Davies): Most mechanically propelled vehicles have a significant impact on our environment. They contribute towards carbon dioxide emissions, cause elevated levels of certain pollutants when congested, generate noise and create danger for people and wildlife on our roads. Their illegal use in the countryside can cause damage and nuisance. The emerging Wales transport strategy will set the framework for tackling these issues, and earlier this year, in partnership with the Department for Environment, Food and Rural Affairs, we published guidance for local authorities and the police on effective enforcement and management techniques to help tackle the problem of illegal off-road use.

Y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau (Andrew Davies): Mae'r mwyafrif o gerbydau peiriannol yn cael effaith sylweddol ar ein hamgylchedd. Maent yn cyfrannu tuag at ollyngiadau carbon deuocsid, yn achosi lefelau uchel o lygredd pan fyddant wedi'u gordyrru, yn creu sŵn ac yn creu perygl i bobl a bywyd gwyllt ar ein ffyrdd. Gall y defnydd anghyfreithlon ohonynt yng nghefn gwlad achosi difrod a niwsans. Bydd strategaeth drafndiaeth arfaethedig Cymru yn gosod y fframwaith ar gyfer mynd i'r afael â'r materion hyn, ac, yn gynharach eleni, mewn partneriaeth ag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, bu inni gyhoeddi cyfarwyddyd i awdurdodau lleol a'r heddlu am dechnegau rheoli a gorfodi i ymdrin â phroblem defnyddio cerbydau'n anghyfreithlon oddi ar y ffordd.

Y Mesur ar Newid yn yr Hinsawdd
The Climate Change Bill

Q15 Glyn Davies: What discussions has the Minister had with the Secretary of State for Wales about the powers that will be devolved to the National Assembly for Wales under the climate change Bill? OAQ0987(EPC)

Carwyn Jones: I have not discussed the climate change Bill with the Secretary of State for Wales. I raised the issue at an informal meeting with the Secretary of State for Environment, Food and Rural Affairs on 10 November. Welsh Assembly Government officials have had initial discussions with the Office of Climate Change concerning the Bill.

C15 Glyn Davies: Pa drafodaethau mae'r Gweinidog wedi'u cynnal gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch y pwerau a fydd yn cael eu datganoli i Gynulliad Cenedlaethol Cymru dan y Mesur ar newid yn yr hinsawdd? OAQ0987(EPC)

Carwyn Jones: Nid wyf wedi trafod y Mesur ar newid yn yr hinsawdd gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Codais y mater mewn cyfarfod anffurfiol gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ar 10 Tachwedd. Mae swyddogion Llywodraeth y Cynulliad wedi cynnal trafodaethau cychwynnol gyda'r Swyddfa Newid yn yr Hinsawdd am y Mesur.